**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **24 Mawrth 2023** |
| **Teitl:** | **Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau 2023/24** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Ystyried Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2023 a Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau Ddrafft 2023/24.** |

**Cefndir**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol ei Aelodau yn flynyddol er mwyn gweithredu'r pwerau a roddir gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) ac fel y'i diwygiwyd gan Adrannau 62 i 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013; Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW). Yn ogystal, rhaid i'r Atodlen fodloni gofynion Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) 2023 - 2024**

Cyhoeddodd yr IRPW ei Adroddiad Blynyddol 2023 ym mis Chwefror (gweler Atodiad B). Mae fformat yr adroddiad eleni yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol, lle mae'n cyfeirio at unrhyw benderfyniadau a wnaed gan yr IRPW yn unig yn 2023; dylid cymhwyso penderfyniadau 2022 ar gyfer 2023.

Mae'r penderfyniadau sy'n berthnasol i Gynghorau Sir yn ymwneud dim ond â'r lefel sylfaenol o gyflog ar gyfer aelodau etholedig o £16,800 i £17,600; a'r cynnydd i gyflogau uwch.

Pan gyhoeddir Adroddiad Blynyddol yr IRPW, rhaid i brif gynghorau gydymffurfio â'r gofynion statudol a chymhwyso'r holl benderfyniadau perthnasol. Ar hyn o bryd does dim opsiynau yn ymwneud â lefelau tâl gan gynghorau sydd angen penderfyniad gan y Cyngor. Ni ellir amrywio lefelau taliadau y mae gan Aelodau'r hawl iddynt drwy bleidlais y Cyngor.

Dim ond Aelod unigol all gyfathrebu'n ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd) os ydynt, fel unigolyn, am wrthod y taliad i gyd neu ran o'r taliad y mae ganddynt hawl iddo.

**Amserlen Taliadau Aelodau 2023/24**

Bydd Adroddiad Blynyddol IRPW 2023 a Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau 2023/24 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 20fed Ebrill 2023. Does dim newidiadau arfaethedig i'r Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau ar wahân i adlewyrchu'r newidiadau i gyflogau.

Gofynnir i'r Cyngor hefyd ystyried cymeradwyo parhau â'r arferion canlynol:

- Peidio â gwneud taliadau am dreuliau teithio tra'n ymgymryd â dyletswyddau etholaethol;
- Cymeradwyo'r gynhaliaeth deithiol, llety dros nos a lwfansau parcio ceir ar yr un raddfa â 2022/23;
- Parhau i gynnig y lwfans optio i mewn gwerth £10 misol i dalu costau ffôn, band eang a phost ac i'r taliad hwn gael ei adlewyrchu yn y Datganiad o Daliadau a wnaed i Aelodau;
- Mae Aelodau Cyfetholedig yn cael eu capio i uchafswm sy'n cyfateb i 10 diwrnod llawn ar gyfer pob pwyllgor y mae unigolyn wedi'i gyfethol;
- I barhau i gyhoeddi cyfanswm yr ad-daliad gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn ond heb ei briodoli i unrhyw Aelod mewn perthynas ag ad-daliad gofal.

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | **Ystyried Adroddiad Blynyddol IRPW 2023 a Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau 2023/24 cyn ei gyflwyno i'r Cyngor ar 20 Ebrill 2023.** |
| **Atodiadau:** | Atodiad A – Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau Drafft 2023/24;<br><br>Atodiad B – Adroddiad Blynyddol IRPW 2023. |
| **Dogfennau cefndir:** | Adroddiad i'r Cyngor, 2 Mawrth 2023 – Cyllideb ar gyfer 2023/24;<br>Adroddiad Blynyddol IRPW 2022;<br>Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau 2022/23;<br>Adroddiad y Cyngor, 8 Mehefin 2022;<br>Adroddiad y Cyngor, 20 Mai 2022;<br>Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021;<br>Adroddiad i'r Cyngor 23 Medi 2021 – Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth;<br>Canllaw ymgeiswyr ar gyfer darpar ymgeiswyr yn Etholiadau Lleol 2022;<br>Cynllun Rheoli Carbon;<br>Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2022/23 ymlaen;<br>Lwfansau Aelodau blynyddoedd blaenorol**.** |
| **Enw:** | Lowri Edwards |
| **Teitl Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 01.03.2023 |